

Plant anweledig Sir y Fflint: Ydych chi'n adnabod plentyn sy'n byw i ffwrdd o gartref?

Os yw plentyn yn byw i ffwrdd o gartref, gallent fod **mewn perygl**.

Os ydych chi'n adnabod disgybl neu blentyn:

- Dan 16 (neu dan 18 os oes ganddynt anabled)
- Sy'n byw gyda rhywun **nad yw'n berthynas agos***
- Sy'n aros yno'n hirach na 28 diwrnod

Dyma yw maethu preifat.

Mae plant wedi eu maethu'n breifat yn arbennig o ddiameddiffyn oherwydd eu bod yn anweledig i awdurdodau. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn derbyn nifer isel o atgyfeiriadau am faethu preifat.

Fel gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mae dyletswydd arnoch i roi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant. Peidiwch â pheryglu diogelwch plentyn.

Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor yn ôl y gyfraith, os yw rhywun yn gwybod am drefniant maethu preifat.

Os hoffech chi drafod amgylchiadau plentyn neu ddisgybl yn gyfrinachol:

Ffoniwch y cyswllt Plant yn gyntaf ar **01352 701000**
neu e-bostio EarlyHelpHub.Enquiries@flintshire.gov.uk

Byddwn yn gwneud yn siŵr fod y plentyn yn ddiogel, trefnu fod gofalwyr yn cael caniatâd meddygol ar gyfer argyfyngau, cefnogi'r plentyn i gadw cysylltiad â'u teulu, sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol, ystyried cefnogaeth ariannol ar gyfer offer hanfodol e.e. gwllâu.

Gallai Maethu Preifat fod yn:

Plentyn neu berson ifanc o dramor yn aros gyda theulu yn y DU am resymau addysgol.

Plentyn neu berson ifanc nad yw'n gallu byw gyda'r teulu oherwydd afiechyd neu ymrwymadau gwaith y rhiant.

Person yn ei ardegau sydd wedi rhedeg o gartref ac yn aros gyda theulu ei ffrind.

* Mae perthynas agos yn aelod biolegol neu gyfreithiol o deulu plentyn fel nain neu daid, modryb, ewythrod, brodyr, chwiorydd neu lys-rieni gyda chyfrifoldeb rhieni.